# Polisi Corfforaethol - 08

## Polisi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

## Ymateb Gweithredol

**(Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol: PSTC Darparu Gwasanaethau)**

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod taw un o'i brif swyddogaethau a'i ddyletswyddau statudol yw darparu ymateb effeithiol a phroffesiynol i ddigwyddiadau brys.


Mae'r dyletswyddau statudol hyn yn cynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Y Gorchymyn Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygiedig) 2017
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

Mae yna hefyd ddisgwyliad cyhoeddus ac yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn derbyn dyletswydd foesol i ymateb i argyfyngau anstatudol lle bydd gallu ac adnoddau'n caniatáu.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws holl feysydd ei fusnes:

- I gynnal stad o barodrwydd i alluogi baich ymateb amserol a digonol i unrhyw ddigwyddiadau a all godi yn unol ag unrhyw safon gwasanaeth cytunedig;
- I sicrhau Iechyd a Diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd wrth fabwysiadu systemau gwaith diogel, offer a rhaglenni hyfforddi priodol a darparu cudd-wybodaeth weithredol a gwybodaeth risg fel bo'n briodol;
- I weithio â phartneriaid i gynnal galluogrwydd i ymateb i bob math o brif ddigwyddiadau ar raddfa fawr;
- I leihau'r effaith ar yr amgylchedd sy'n deillio o effeithiau tanau a digwyddiadau brys eraill;
- I wneud trefniadau i sicrhau parhad busnes.

Llofnodwyd:  Dyddiad: 14/7/20

PSTC Darparu Gwasanaethau